wye valley dyffryn gwy
Area of Outstanding Natural Beauty
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

# Pecyn Cymorth Gweithredu – Jac y Neidiwr




Wedi ei ddylunio gan Grwpiau Gweithredu Cymunedol ar gyfer Grwpiau Gweithredu Cymunedol

WISP
Wye Invasive Species Project
Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol Gwy

# Cyflwyno'r Pecyn Cymorth ar gyfer y Jac y Neidiwr

**Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi ei ddylunio er mwyn helpu grwpiau gweithredu cymunedol (rhai newydd neu'n rhai sydd wedi eu sefydlu ers tro) i ddelio gyda'r hyn sydd angen er mwyn trefnu a gweithredu. Mae'r teclynnau gwahanol wedi eu rhestru isod, gyda phob cam yn dangos pryd y mae modd eu defnyddio.**

## Yr Hyn Sydd Yn Eich Pecyn Cymorth:

| | |
|---|---|
| **1. DEWCH I 'NABOD EICH JAC Y NEIDIWR** | • **TAFLEN ADNABOD** – dewch i 'nabod y Jac y Neidiwr<br>• **CYLCH BYWYD JAC Y NEIDIWR** – camau cylch bywyd a phryd i'w reoli<br>• **TAFLEN JAC Y NEIDIWR A PHRYFED PEILLIO** – beth i'w hau ar gyfer gwenyn pan fydd y Ffromlys Chwarenniog wedi'i glirio |
| **2. TREFNU A BWRW ATI** | • **CANLLAW GWEITHREDU YN OFALUS** – cyngor iechyd a diogelwch i grwpiau gwirfoddol<br>• **FFURFLEN GOFRESTRU AR GYFER GWIRFODDOLWYR** – dewch i 'nabod y gwirfoddolwyr yn eich grŵp<br>• **CANLLAW YMARFEROL AR GYFER DELIO Â JAC Y NEIDIWR** – cyngor i'ch helpu chi drefnu parti gwaith<br>• **POSTER CYMRYD RHAN** – yn helpu chi recriwtio gwirfoddolwyr newydd |
| **3. CYNLLUNIO EICH DIGWYDDIADAU** | • **FFURFLEN GANIATÂD AR GYFER PERCHNOGION EIDDO/TIR** – sicrhau cefnogaeth a chaniatâd ysgrifenedig<br>• **RHESTR O'R CIT AR GYFER DIGWYDDIADAU**, yn cynnwys y cit bioddiogelwch sylweddol<br>• **TEMPLEDI POSTER AR GYFER Y DIGWYDDIAD** – helpu lledaenu'r gair<br>• **ASESIAD LLES** (enghraifft a ffurflen wag i chi ei chwblhau)<br>• **ASESIAD RISG** (enghraifft a ffurflen wag i chi ei chwblhau) |
| **4. A GWEITHREDU!** | • **MAPIO'R FFROMLYS GAN DDEFNYDDIO APIAU A MAPIAU PAPUR** - (a thaenlen er mwyn cofnodi)<br>• **FFURFLEN GOFRESTRU AR GYFER GWIRFODDOLWYR** –sicrhau bod manylion argyfwng gyda chi<br>• **FFURFLEN GANIATÂD AR GYFER LLUNIAU** – er mwyn defnyddio'r lluniau wedi'r digwyddiad |

## Byddem yn croesawu unrhyw adborth!

Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi ei greu gyda help gan grwpiau gweithredu cymunedol o fewn AHNE Dyffryn Gwy sydd wedi llwyddo i reoli Jac y Neidiwr, ond os oes syniadau gennych ar sut i wella hyn, rhannwch eich adborth drwy'r wefan.

Mae'r Pecyn Cymorth ar gael fel set i'w lawrlwytho o'n gwefan **www.wyevalleyaonb.org.uk**
Bydd y fformat yma'n caniatáu ni ddiweddaru pob dim wrth i ni dderbyn adborth ac os yw canllawiau cenedlaethol yn newid. Os ydych angen Pecyn Cymorth wedi ei argraffu neu mewn iaith arall, cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda.

# DEWCH I 'NABOD EICH JAC Y NEIDIWR

- TAFLEN ADNABOD
- CYLCH BYWYD Y JAC Y NEIDIWR
- TAFLEN JAC Y NEIDIWR A PHRYFED PEILLIO

# Jac y Neidiwr

**Am fwy o wybodaeth, ewch i www.nonnativespecies.org**
Wedi ei greu gan Olaf Booy, Max Wade a Vicky White o RPS

## Disgrifiad o'r Rhywogaeth

**Enw gwyddonol:** *Impatiens glandulifera*

**Enwau eraill:** Policeman's Helmet, Indian Balsam, Jac y Neidiwr

**Ardal gynhenid:** Gorllewin a Chanol Mynyddoedd Himalaia

**Cynefin:** Fel arfer ar lan afonydd a choetir llaith, ond yn medru tyfu mewn cynefinoedd eraill

Yn llysieuyn tal, deniadol gyda phennau hadau sy'n medru ffrwydro. Er yn hawdd ei adnabod fel planhigyn aeddfed gyda'i flodau pinc-porffor, coes drwchus a dail nodweddiadol, mae'r hadblanhigion a'r hyn sydd ar ôl o flodau llynedd yn fwy anodd eu gweld.

Cafodd ei gyflwyno fel planhigyn ar gyfer yr ardd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a chofnodwyd am y tro cyntaf yn y gwyllt ym 1855. Yn aml yn cael ei hoffi gan y cyhoedd yn sgil ei ymddangosiad esthetig a dal yn cael ei blannu'n fwriadol ar adegau. Mae'n gyffredin yn y DU erbyn hyn, yn enwedig ar hyd afonydd trefol. Yn cael ei ledaenu drwy'r hadau yn unig, sydd yn fach ac yn hawdd eu cludo gan y gwynt neu ddŵr.


Mae'n mygu rhywogaethau cynhenid mewn ardaloedd sydd yn sensitif yn ecolegol, yn enwedig ar lannau afonydd. Os yw'n tyfu'n drwchus, mae'n medru effeithio ar lif yr afonydd adeg glaw trwm, gan gynyddu'r peryg o lifogydd. Wrth farw dros y gaeaf, mae'n medru gadael glannau'r afonydd yn foel ac yn fwy tebygol o gael eu herydu.


Mae'r Jac y Neidiwr yn cael ei restru o dan Atodlen 9, Deddf Bywyd Gwyllt a Chadwraeth 1981 ar gyfer Cymru a Lloegr. Felly, mae'n drosedd i blannu neu ganiatáu'r rhywogaeth yma i dyfu yn y gwyllt.

Mae manylion y ddeddfwriaeth ar gael yma
**www.nonnativespecies.org/legislation.**




## Nodweddion Allweddol






















# Adnabod y planhigyn drwy'r flwyddyn


**Mae modd ei adnabod rhan fwyaf o'r flwyddyn: Mawrth-Mehefin – sef trwy'r hadblanhigion, coes a siâp y dail; Gorffennaf – Medi – sef trwy'r goes, siâp y dail a'r blodau. Mwy anodd ei adnabod dros y gaeaf (Hydref – Chwefror) ond edrychwch am y gwreiddiau gwanhaol iawn**


Gweddilliom fel gwair yn y gaeaf


Gwreiddiau yn y gaeaf

## Rhywogaethau tebyg

**Orange Balsam**
**Goresgynnol**
***(Impatiens capensis)***


Blodeuo bach ynghynt – Mehefin Awst

Blodeuo bach ynghynt – Mehefin Awst



Dail llai a'n llai danheddog

Yn llai tebyg o ran ei natur i chwilio am gyfleoedd i ymledu na'r Jac y Neidiwr


Blodyn yn debyg o ran siâp ond yn oren

## Dosbarthiad

**I'w weld ar hyd a llyd y DU. Fel arfer, ar lan afonydd a mannau llaith eraill.**


**Ffynhonnell:** NBN Gateway. Gwiriwch y wefan am y dosbarthiad ar hyn o bryd

**Cyfeiriadau a darllen pellach:**

Blamey, M, Fitter, R and Fitter, A (2003) *"The Wild Flowers of Britain and Ireland. The Complete Guide to the British and Irish Flora"*. A & C Black

Preston, C D, Pearman, D A and Dines, T A (editors) (2002) *"New Atlas of the British and Irish Flora"*. Oxford University Press

Stace, C (1999) *"Field Flora of the British Isles"*. Cambridge University Press

**Lluniau gan:** Olaf Booy, Mike Harris, Max Wade

# Jac y Neidiwr

Nature Conservation Services

## Impatiens Glandulifera

### Ystyriwch y cylch bywyd er mwyn ei reoli'n effeithiol

## Egino a thyfu

### Chwef-Mawrth-Ebrill


Yn dechrau dihuno ar ôl 45 diwrnod dros 4°C



Hadblanhigion gyda had-ddail



Dechrau egino



Mae modd chwistrellu 1.2% i 1.8% o Glyphosate ar ddarnau sydd wedi egino

## Tyfu, peillio a ffrwythloni



Yr arfer gorau yw peidio â thynnu gyda llaw yn hwyr ym mis Gorffennaf unwaith eu bod yn dwyn ffrwyth



Torrwch islaw'r nod isaf o ddiwedd Mehefin ymlaen



### Mai-Mehef-Gorff

Tynnwch â llaw yn gynnar ym mis Mai – tynnwch yr un darnau bob 3 wythnos tan ddechrau Tachwedd. Dechreuwch ar y rhan uchaf yr afon neu'r llethr.

## Blodeuo, dwyn ffrwyth, aeddfedu a hau hadau

### Awst-Medi-Hyd

Peidiwch â chwistrelli yn sgil y pryfed peillio.





Peidiwch â thynnu gyda llaw unwaith y mae'r ffrwythau wedi aeddfedu




Mae un planhigyn medru creu rhwng 800 a 2500 o hadau.

## Cysgu







### Tach-Rhag-Ion

Mae modd gweld yr hadau sy'n cysgu am flwyddyn o leiaf neu ddwy flynedd ar y mwyaf

## Dulliau Rheoli



Chwistrelli'r blodau



Tynnu gyda llaw



Defnyddio peiriant strimer

# Jac y Neidiwr a Phryfed Peillio



**Rhwng Mehefin a Hydref, mae'r blodau hyfryd sy'n rhan o Jac y Neidiwr yn darparu llawer o neithdar sydd yn denu'r gwenyn a chacwn. Felly, mae'n ddealladwy pam fod rhai pobl yn cwestiynu pam fod angen cael gwared ar Jac y Neidiwr o'r tir gan ofyn 'a yw'r sefyllfa cyn waethed â hynny?'**


Ond mae'n ffaith ddiymwad fod Jac y Neidiwr yn Rhywogaeth Estron Goresgynnol ac yn blanhigyn sydd yn trawsnewid ardaloedd sylweddol o'r ecosystemau ar yr iseldir, a hynny ar draul ein heconomi a'n bywyd gwyllt. Gan ei fod yn goresgyn planhigion cyfagos, nid yw'n realistig nac yn ymarferol ein bod yn gadael ychydig ar gyfer y gwenyn. Mae'r planhigyn yma yn ymledu'n gyflym ac mae ond modd ei atal rhag mynd y tu hwnt i reolaeth os ydym yn cymryd camau penodol i ddelio gyda'r planhigyn.

Er bod y blodau o bosib yn boblogaidd gyda thrychfilod, yn sgil morffoleg y blodyn, mae Jac y Neidiwr ond yn cyflenwi neithdar i rai rhywogaethau penodol: gwenyn mwy gyda thafodau canolig neu hir o ran maint fel y Bombus, Apis a'r Vespa. Nid yw'r pryfed peillio eraill, gan gynnwys gloÿnnod byw, gwyfod a chwilod yn elwa o gwbl ac mae astudiaeth yn y DU wedi dangos fod y nifer o rywogaethau o bryfed cop – unwaith y mae Jac y Neidiwr yn ymsefydlu mewn ardal – yn dirywio 75%, chwilod yn dirywio 64% a thrychfilod yn dirywio 58%.

Mae'r gwenyn mêl wedi bodoli yn y DU am fwy na 4,000 o flynyddoedd, ac wedi eu cefnogi gan ddigon o blanhigion cynhenid sydd yn blodeuo. Yn anffodus, mae'r amrywiaeth yma o ran planhigion yn diflannu, yn rhannol yn sgil Jac y Neidiwr a rhywogaethau goresgynnol eraill. Bydd tynnu Jac y Neidiwr oddi yno a chyflwyno planhigion a choed cynhenid yn darparu ffynonellau amrywiol o neithdar a phaill yn ystod y tymhorau sydd nid yn unig yn cefnogi gwenyn a chacwn, ond hefyd y trychfilod peillio hanfodol.


[1] Tanner R. et al (2013) PLoS ONE Impacts of an Invasive Non-Native Annual Weed, Impatiens glandulifera, on Above- and Below-ground Invertebrate Communities in the United Kingdom.


## Dyma rai o'r planhigion cynhenid a choed sy'n blodeuo sydd yn darparu ffynonellau amrywiol o neithdar a phaill drwy'r tymhorau gwahanol:



Blodyn Afallen


Cribau San Ffraid


Pys-y-ceirw



Bwtsiasen y gog


Cyfardwf, Llysiau'r cwlwm



Bysedd y cŵn


Gwyddfid



Y Bengaled



Llygad llo mawr


Trewynyn



Helyg ceimion


Carpiog y gors



Marddanhadlen goch


Clafrllys


Pelydr Sbaen


Meillionen wlanog


Blodyn y gwynt


Milddail

Lluniau © Andy Karran, Ellie Baggett

# Jac y Neidiwr a thwrio am fwyd

**Mae modd bwyta Jac y Neidiwr, ac yn y rhanbarth Himalaiaidd, lle mae'n blanhigyn cynhenid ac nid yw'n mygu rhai eraill, mae'n cael ei ddefnyddio mewn cyrïau.**

Yn ffodus, nid oes llawer o awch i ddefnyddio'r planhigyn mewn bwyd yma yn y DU ac mae chwilio am Jac y Neidiwr yn medru bod yn drosedd. Mae'r planhigyn goresgynnol yn cael ei ystyried fel 'gwastraff a reolir' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sydd yn golygu na ddylid mynd ag unrhyw ran o'r planhigyn a deunydd cysylltiedig e.e. pridd, o'r safle gwreiddiol ac eithrio os ydych yn mynd â'r planhigyn i gyfleuster gwastraff a reolir.

# Jac y Neidiwr a garddio

**Mae Jac y Neidiwr yn cael ei restru o dan Adran 9 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sydd yn golygu ei fod yn 'drosedd i blannu neu'i achosi i dyfu yn y gwyllt'.**

Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith yn gosod dyletswydd arnoch i dynnu Jac y Neidiwr o'ch gardd ond rydych yn medru bod yn gyfrifol gan wynebu dirwyon os ydych yn caniatáu'r planhigyn i dyfu dros wal yr ardd neu lifo i lawr yr afon a meddiannu eiddo eich cymydog. Gan feddwl pa mor hawdd y mae'n medru ymledu, nid yw'n werth ceisio diogelu'r planhigyn hwn, hyd yn oed os ydych yn 'gwneud hyn ar ran y gwenyn'. Mae rhannu planhigion Jac y Neidiwr a hadau gydag eraill yn anghyfreithlon.

Mae'r amrywiaeth o blanhigion a choed yn ein gerddi sy'n blodeuo yn helpu i ddenu a chynnal gwenyn a thrychfilod. Yn wir, mae rhai rhywogaethau o gacwn nawr yn fwy cyffredin yn ein gerddi yn hytrach nag yng nghefn gwlad! Felly, os ydych yn gweld Jac y Neidiwr yn eich gardd, ceisiwch fynd ati i'w reoli yn syth cyn bod hyn yn arwain at gostau personol i chi a'n effeithio'n ddifäol ar fywyd gwyllt.

**Dyma gyngor ar sut i arddio er mwyn annog pryfed peillio…**

- Ymunwch gyda 'Mai Di-dor' Plantlife – gadewch i'r glaswellt dyfu a chael eich synnu gan y nifer i flodau a phryfed peillio sydd yn ymddangos. www.plantlife.org.uk/uk/discover-wild-plants- nature/no-mow-may
- Gadewch i'r blodau dant y llew i dyfu – maent yn wych o ran cynnig neithdar cynnar ac yn blodeuo am fisoedd…. ac maent yn blanhigion bach hyfryd.
- Yn y canolfannau garddio, dewiswch y planhigion sydd â labeli yn dangos eu bod yn gyfeillgar i bryfed peillio.
- Osgowch yr amrywiaeth dwbl o blanhigion gan nad ydynt yn creu neithdar.
- Adeiladwch domen goed - gyda brigau a dail - sydd yn cynnig cynefinoedd i wenyn a thrychfilod eraill sy'n gaeafgysgu.
- Gadewch unrhyw dwmpathau a hen waliau gan eu bod yn cynnig cynefinoedd gwych i gacwn.
- Plannwch goed ffrwythau fel coed afalau, afalau bach surion ac eirin sy'n blodeuo yn gynnar yn y gwanwyn.
- Plannwch lwyni ffrwythau fel gwsberis, mafon a chyrains duon sy'n blodeuo yn hwyr yn y gwanwyn
- Plannwch lysiau fel teim, ffenigl, y wermod wen, tafod yr ych a'r gyfardwf.



# TREFNU A BWRW ATI

- CANLLAW GWEITHREDU YN OFALUS
- FFURFLEN GOFRESTRU AR GYFER GWIRFODDOLWYR
- CANLLAW YMARFEROL AR GYFER DELIO Â JAC Y NEIDIWR
- POSTER CYMRYD RHAN


## A yw'r planhigyn yma yn broblem go iawn?

**Ydy. Mae'r Jac y Neidiwr yn Rhywogaeth Estron Goresgynnol, sydd nawr i'w weld ar lawr gwlad yn y DU ac sy'n cael ei ystyried mewn nifer o wledydd fel planhigyn sy'n bla. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhestru'r Ffromlys fel un o'r *'deg rhywogaeth goresgynnol mwyaf difäol a chostus'*.**

Cyflwynwyd y planhigyn estron goresgynnol yma i'r DU ym 1839 ac mae'n ymledu drwy'r hadau sydd yn cael eu rhannu gan y gymuned garddio a chadw gwenwyn a thrwy gyrsiau dŵr lle y mae hadau yn egino yn y glannau mwdlyd. Yn perthyn i'r Busy Lizzie, dyma ein planhigyn blynyddol talaf, yn tyfu 2-3 metr o uchder, gyda nifer o flodau pinc sy'n arogli'n hyfryd. Mae'n blanhigyn sy'n tyfu ymhlith y cyflymaf, dipyn yn fwy cyflym na'r rhywogaethau cynhenid, a hynny er mwyn dominyddu ardal mewn un tymor. Pan ddaw'r rhew am y tro cyntaf yn yr hydref, mae'n marw gan adael glannau heb flodau sydd yn medru cael eu herydu'n hawdd. Mae'r planhigyn yn hapus yn tyfu mewn amryw o amodau ond mae'n hoffi amodau llaith, mewn bach o gysgod sydd ger cyrsiau dŵr a choetiroedd llaith. Felly, mae nentydd, gwlyptiroedd a choetiroedd yr Afon Gwy yn cynnig cartref perffaith!

**O dan y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, mae'n drosedd i blannu neu achosi'r Jac y Neidiwr i dyfu yn y gwyllt. Mae'r hadau yn wastraff a reolir.**

## Sut i ddifa'r Jac y Neidiwr




Coesai tal, coch a llawer o flodau pinc






Eginblanhigion



Flower and pod



Dail pigfan, 3 mewn troellen



Pod hadau, hadau aeddfed (du) ac anaeddfed (gwyn)

## Sut mae mor llwyddiannus?

- Mae tymor blodeuo hir gan y Jac y Neidiwr (Mehefin – Hydref) ac mae'r pryfed peillio yn ffafrio'r blodau yma dros y blodau cynhenid. Mae hadau'n cael eu creu rhwng Gorffennaf a Hydref.
- Mae'r codennau yn ffrwydro ar agor, gan deithio hyd at saith metr ym mhob cyfeiriad! Mae pob planhigyn yn creu rhwng 600 a 2,500 o hadau ac mae modd eu cludo yn y dŵr, gan ddynion a bywyd gwyllt.
- Mae hadau yn medru goroesi am 2 flynedd yn y pridd tan ddaw'r amodau cywir i ganiatáu iddynt dyfu.
- Mae egino yn medru digwydd fel rhywbeth torfol neu dros sawl mis (Chwefror – Gorffennaf).
- Mae hadau yn tyfu'n gyflym ac yn taflu cysgod dros rhai planhigion sydd wedyn yn marw yn sgil diffyg haul.
- Mae astudiaethau yn dangos bod y Jac y Neidiwr yn effeithio ar ansawdd y pridd, a'n atal planhigion cynhenid rhag ail-dyfu.
- Mae'r rhagolygon yn nodi y bydd newid hinsawdd yn arwain at fwy o law a llifogydd, sydd yn addas ar gyfer Jac y Neidiwr.

## Ni allwn ni fforddio anwybyddu hyn.

Yn ffodus, mae'n bosib tynnu'r Jac y Neidiwr o'r ddaear wrth ei wreiddiau yn weddol hawdd ac mae'r hadau ond yn hyfyw am tua 2 flynedd. Mae gwneud hyn yn aml felly yn medru helpu atal y planhigyn rhag ymledu. Os ydych yn gweld Jac y Neidiwr yn eich gardd neu ar eich tir, neu ar hawliau tramwy cyhoeddus neu ar ochr y ffordd (a bod yr amodau yn ddiogel i chi) – darllenwch y cyngor isod.

**Mae angen ysbryd cymunedol i gael gwared ar y planhigyn yma sy'n bla.**
Os yw'n tyfu yng ngardd eich cymydog, dywedwch wrthynt, esboniwch y sgil-effaith a chynigiwch help iddynt ei reoli. Os ydych yn dirfeddiannwr lleol sydd yn cael trafferth yn ei reoli, gofynnwch i'ch ffrindiau a chymdogion i'ch helpu. Os ydych am ddod â'ch cymdogion at ei gilydd i ddifa'r planhigyn hwn ar hyd y llwybrau cerdded, llwybrau ceffyl lleol neu safleoedd lleol eraill, cysylltwch gyda ni. Rydym yn medru'ch helpu i drefnu'r grŵp a ...

## ... a dewch i fwrw golwg ar ein Pecyn Cymorth ar gyfer Difa Jac y Neidiwr, wedi ei ddylunio ar gyfer (a gan) grwpiau gweithredu cymunedol.




Available to download from www.wyevalleyaonb.org.uk or contact us to request a hard copy

# Trefnu Parti Difa'r Jac y Neidiwr

**Dewswich safle** lle y byddwch yn gwneud gwahaniaeth – ewch i'r dudalen nesaf. Sicrhewch gefnogaeth y tirfeddiannwr (mae ffurflen ganiatâd yn rhan o'r Pecyn Cymorth) er mwyn medru cael mynediad at y planhigyn.

**Cwblhewch Asesiad Risg (AR)** - sicrhewch eich bod wedi nodi'r peryglon a sut i reoli'r rhain - mae esiampl i'w gweld yn ein Pecyn Cymorth.

**Trefnwch ddyddiad a lledaenu'r gair** - defnyddiwch bosteri (mae esiampl yn y Pecyn Cymorth) a'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo'r grŵp. Gwahoddwch eich ffrindiau a chymdogion a chysylltwch ag eraill sydd â diddordeb e.e. Sefydliad y Menywod, grwpiau ieuenctid, grwpiau pontio.

**Cynlluniwch eich diwrnod** - sicrhewch fod y teclynnau, lluniaeth a'r cit bioddiogelwch yn barod- ewch i'r rhestr yn y Pecyn Cymorth. Peidiwch â gorweithio eich gwirfoddolwyr; rydych am eu gweld yn dod i helpu unwaith eto!

**Ar y diwrnod, arweiniwch y tîm** – amlinellwch strwythur y diwrnod ac esboniwch pam fod y gwaith yn hanfodol ar gyfer bywyd gwyllt. Rhowch wybod iddynt pryd i ddisgwyl egwyl ar gyfer seibiant. Ewch drwy'r Asesiad Risg, gan amlygu'r risgiau. Os oes unrhyw offer i'w defnyddio, yna esboniwch sut i wneud hyn yn ddiogel a dangos iddynt (gweler isod).

**Cofnodwch eich gweithgareddau**- Tynnwch luniau cyn ac ar ôl gwneud y gwaith (mae ffurflen ganiatâd ar gyfer tynnu lluniau yn y Pecyn Cymorth) a chofnodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni. Rhestrwch unrhyw wersi i lywio digwyddiadau'r dyfodol a rhannwch eich lluniau a newyddion gyda ni!


**Dilynwch fesurau bioddiogelwch!** Wrth adael y safle, dilynwch y weithdrefn bioddiogelwch (gweler isod).

**Gofalwch am eich gwirfoddolwyr** – Diolchwch i bawb a hyrwyddo digwyddiadau'r dyfodol. Os yn bosib, dathlwch hyn drwy drefnu digwyddiadau cymdeithasol e.e. barbeciw.

*'Balsam bashing' yw'r arfer o dynnu Jac y Neidiwr lan o'r ddaear gyda'i wreiddiau a/neu dorri'r planhigion islaw'r nod isod gan ddefnyddio offer garddio er mwyn atal planhigion rhag ffurfio hadau.*


## Cyngor allweddol ar gyfer Difa Jac y Neidiwr

- ✓ Edrychwch o gwmpas er mwyn adnabod ffynhonnell yr hedyn (fel arfer y pwynt uchaf i fyny'r afon neu'r pwynt uchaf i fyny'r bryn) – gweler y diagram isod.
- ✓ What3Words – dyma ap ffôn mudol sydd yn ddefnyddiol i gofnodi safleoedd (a rhannwch hyn gyda ni).
- ✓ Mae'n werth tynnu'r planhigyn yma cyn bod y blodau'n ymddangos (Mai) neu wrth iddynt ddechrau blodeuo (Mehefin).
- ✓ Os ydych chi'n tynnu yn gynnar yn ystod blodeuo, plygwch y blodyn a'r hadau i mewn i fag plastig a'i dorri a'i osod yn y bag. Gadewch y blodyn a'r hadau ar y safle i bydru am y 3 mlynedd ddiwethaf. Mae'n anghyfreithlon i fynd â hyn o'r safle, ac eithrio i safle gwastraff trwyddedig a reolir.
- ✓ Nid yw'r gwreiddiau yn fwy nag ambell gentimetr. Daliwch y goes a chodi'r gwreiddiau drwy ei dynnu. Os yw'n torri uwchben y nod isaf, rhowch gynnig arni!
- ✓ Torrwch y goes rhwng y gwreiddiau a'r nod gwaelod.
- ✓ Os yw'r ardal yn fawr a'n rhy anodd ei rheoli, yna defnyddiwch offer garddio ond torrwch islaw'r nod isaf er mwyn atal y planhigyn rhag aildyfu (os yn cael eu torri uwchben y nod gwaelod, bydd y planhigyn yn mynd ati i dyfu llawer o hadau). Mae torri'r planhigyn yn mynd i atal hadau rhag ail-gynhyrchu, yn rhoi ychydig o amser i chi gynllunio sut i ddelio gyda hyn.
- ✓ Gadewch unrhyw blanhigion sydd wedi eu tynnu ar y safle i bydru. Os yw'n llaith, efallai y bydd y planhigyn yn aildyfu, ac felly, dylech eu hongian dros glogwyni neu ganghennau fel eu bod yn sychu. Sicrhewch fod hyn i ffwrdd o'r cyrsiau dŵr er mwyn eu hatal rhag blocio. Ewch i edrych ar y domen er mwyn sicrhau nad yw planhigion yn gwreiddio neu'n blodeuo.
- ✓ Bydd angen gwneud gwaith pellach gan fod golau'r haul yn rhoi hwb i'r hadau dyfu.
- ✓ Mae gwneud hyn yn fisol yn mynd i'ch helpu i lwyddo gyda'r dasg.





## Mae nodi sut y mae'n ymledu yn allweddol




*Graphic source: Pembrokeshire National Park's Stitch in Time Project*

# Mae cymunedau ar hyd Dyffryn Gwy yn gweithredu. A fyddwch yn ymuno â hwy?

**Mae tynnu neu dorri un planhigyn Jac y Neidiwr cyn ei fod yn blodeuo yn medru helpu lleihau'r nifer o hadau yn y pridd, rhwng 600 a 2,500 o hadau. Felly, mae pob dim yn medru helpu.**

Wedi syrffedu ar ôl gweld y planhigyn yma sy'n bla yn ymledu dros yr haf, mae mwy a mwy o gymunedau yn gweithredu. Dyma rai esiamplau o Ddyffryn Gwy:

**Gweithredu ar draws y dalgylch:** dros 3 mlynedd, mae'r Grŵp Llwybrau Troed Narth a'r Dalgylch, wedi mapio a difa'r planhigyn hwn ar draws y dalgylch Manor Brook sydd yn bwydo'r Afon Gwy yn Whitebrook. Mae meysydd a oedd wedi eu heffeithio gan y planhigyn nawr yn noddfeydd ar gyfer bywyd gwyllt, gan ddangos fod y math hwn o waith yn llwyddiannus.

**Achub cynefinoedd pwysig:** roedd cymuned (a chymdogion) Brockweir dros 4 diwrnod yn 2021 wedi dod ynghyd er mwyn atal y planhigyn rhag ymledu mewn dolydd a choetiroedd cyfoethog ac ail-hawlio'r Afon Gwy ar gyfer bywyd gwyllt. Cliriwyd mwy na 3km o Jac y Neidiwr. Mae yna gynlluniau i fynd yn ôl i'r safleoedd yma a symud i safleoedd newydd yn rhannau uchaf y dalgylch.

**Ail-hawlio amwynderau allweddol eraill:** I fyny o AHNE Dyffryn Gwy, mae Cymdeithas Cymunedau St James a Bartonsham wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a lefelau o ymgysylltu gyda glannau afon Henffordd, gan ddechrau yn Bishop's Meadow a mynd i lan yr afon tra'n cefnogi Cyfeillion Bartonsham Meadows i fynd i'r afael gyda Jac y Neidiwr yn Bartonsham Meadows, gorlifdir i'r dwyrain o Henffordd, lle y mae'r Gwy yn symud rhwng Pontydd Victorian a Canary.

**Cefnogi tirfeddianwyr a thrigolion lleol:** Mae trigolion Llandogo yn bwriadu tynnu'r planhigyn o'u pentref hyfryd, gan weithio o'r ucheldiroedd sydd wedi eu heffeithio fwyaf a mynd i lawr tuag at yr Afon Gwy. Byddant yn helpu trigolion a thirfeddianwyr i glirio gerddi, llwybrau a chaeau.

**Os hoffech gael eich cefnogi i drefnu grŵp gweithredu lleol neu os am drefnu digwyddiad un-tro, ewch i'n gwefan i lawrlwytho'r Pecyn Cymorth (a ysgrifennwyd ar gyfer (a gan) grwpiau gweithredu lleol) a chysylltwch gyda ni er mwyn ein hysbysu ni am eich cynlluniau www.wyevalleyaonb.org.uk**



Y gymuned yn difa Ffromlys yn Brockweir

# Bydd bioddiogelwch da yn sicrhau nad ydych yn lledaenwr!

Er mwyn sicrhau nad ydym yn cyfrannu'n bersonol i'r broblem tra'n mwynhau cefn gwlad, yna cofiwch y mantra Edrych, Golchi, Sychu':

EDRYCH — **Edrych** eich offer, esgidiau a'ch dillad am fwyd, anifeiliaid dyfrol neu hadau'r planhigyn. Tynnwch unrhyw beth yr ydych yn ei weld a'i adael ar y safle. Mae brwsh, neu 'hoof pick', yn ffordd wych i dynnu'r hadau oddi ar yr esgidiau neu olwynion eich cerbyd cyn symud i ardal lle nad yw'r planhigyn yn tyfu.

GOLCHI — **Golchi** bob dim gymaint ag sydd yn bosib gan dalu sylw i ardaloedd sydd yn llaith neu'n anodd eu cyrraedd. Defnyddiwch ddŵr twym os yn bosib.

SYCHU — **Sychu** bob dim am gyn hired ag sydd yn bosib cyn eu defnyddio rhywle arall gan fod rhai planhigion ac anifeiliaid goresgynnol yn medru goroesi am fwy na phythefnos mewn amodau llaith.

Mae'r canllaw hwn yn ffurfio rhan o'r Pecyn Cymorth Gweithredu yn Erbyn Jac y Neidiwr a grëwyd gan Uned AHNE Dyffryn Gwy ar gyfer y Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol Gwy. Mae'r prosiect wedi ei gefnogi gan Grŵp Llwybrau Cerdded Narth a'r Dalgylch, Parc Cenedlaethol Arfordir Si Benfro, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Efrog, Rhwydwaith Ecolegol Dygn Cymru, ac Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Esgynnol Prydain Fawr. Mae uned TAHNE Dyffryn Gwy wedi derbyn cyllid ar gyfer rheoli rhywogaethau estron drwy *Gronfa Hwb ar gyfer Bioamrywiaeth Severn Trent, Cronfa Rhwydweithiau Natur* y Loteri Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, Cronfa Dygnwch *Bioamrywiaeth ac Ecosystemau.*

# Trywydd ar gyfer Difa Jac y Neidiwr

**Cadarnhewch a oes nodweddion gwarchodedig gan eich safle e.e. SoDdGA neu os yw'n Gadwraeth Natur a gofynnwch am y caniatâd angenrheidiol**

WISP
Wye Invasive Species Project
Prosiect Rhywogaethau Goresgynnol Gwy

**Ewch i wirio'r Pecyn Cymorth llaw sydd yn cynnwys pethau defnyddiol fel ffurflen ganiatâd ar gyfer tirfeddianwyr, asesiad risg, rhestr o'r offer, posteri, taflenni cofrestru gwirfoddolwyr.**

CHWEFROR

## Y Camau Cychwynnol

1. Cysylltwch gyda'ch gwirfoddolwyr
2. Gwahoddwch recriwtiaid newydd - defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol, hysbysfyrddau cymunedol, e-byst ayyb

MAWRTH

## Dewiswch safle

1. Cysylltwch â'r tirfeddiannwr a chynnig cefnogaeth eich grŵp
2. Bydd angen sicrhau caniatâd ysgrifenedig i fynd ar y tir er mwyn delio gyda'r Jac y Neidiwr
3. Rhowch wybod i'r tirfeddiannwr am yr hyn sy'n digwydd a'i gefnogi

YN GYNNAR YN EBRILL

## Trefnwch yr Elfen Weinyddol

1. Nodwch pwy sy'n medru cynnig Cymorth Cyntaf (os oes angen)
2. Cwblhewch yr holl asesiadau diogelwch
3. Cadarnhewch ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau

CANOL-DIWEDD EBRILL

## Cynlluniwch eich digwyddiadau

1. Cadarnhewch fod yr holl offer a'r cit gennych (gan gynnwys y cit bioddiogelwch)
2. Gwiriwch fod eich gwirfoddolwyr yn frwdfrydig, yn fodlon ac yn medru bwrw ati
3. Gwiriwch y logisteg - lluniaeth, teithio, rhagolygon ar gyfer y tywydd "

YN GYNNAR YM MAI

## Lledaenwch y Gair!

1. Defnyddiwch bosteri, taflenni, y cyfryngau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo eich digwyddiad
2. Ewch ati i wahodd ffrindiau, teulu, cymdogion
3. Cysylltwch â grwpiau cymunedol eraill (Sefydliad y Menywod, Dug Caeredin, Rotari, grwpiau ieuenctid, grwpiau Pontio)

CANOL-DIWEDD MAI
(a gwnewch hyn bob mis er mwyn cael yr effaith fwyaf)

## DIFA JAC Y NEIDIWR!

1. Cyflwynwch eich hun, amlinellwch strwythur y diwrnod, esboniwch pam fod rheoli Jac y Neidiwr mor hanfodol ar gyfer bywyd gwyllt
2. Rhowch wybod i bawb pryd fyddant yn debygol o gael egwyl
3. Dylech fynd drwy'r Asesiad Risg. Os yn defnyddio offer, esboniwch sut i'w defnyddio'n ddiogel
4. Cofnodwch eich gweithgareddau - lluniau, fideos (gan sicrhau eich bod wedi derbyn caniatâd y gwirfoddolwyr)
5. Dilynwch y gweithdrefnau Bioddiogelwch pan fydd pawb yn gadael y safle
6. Diolchwch i bawb am eu hymdrech
7. Hyrwyddwch unrhyw ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y dyfodol.
8. Dathlwch gyda digwyddiad cymdeithasol neu farbeciw
9. Rhannwch eich llwyddiannau a'r gwersi sydd wedi eu dysgu gyda grwpiau eraill

# Gweithredu'n Ddiogel

## Ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol



Iechyd a diogelwch, lles ac yswiriant fel arfer yw'r elfennau llai diddorol o wirfoddoli ond rhaid buddsoddi ychydig o amser yn ystyried hyn cyn mynd ati i weithio yn yr awyr agored.

### Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn datgan:

*Os ydych yn gwirfoddoli, naill ai fel unigolyn neu fel rhan o grŵp cymunedol na sydd yn meddu ar unrhyw gyflogeion, yna ni fydd y gyfraith iechyd a diogelwch fel arfer yn berthnasol i chi. Fodd bynnag, dylech ymgymryd â'ch rôl yn ddiogel ac ystyried unrhyw ganllawiau gan y llywodraeth leol. Er enghraifft, dylai grŵp cymunedol o wirfoddolwyr sydd yn gweithio ar dynnu Jac y Neidiwr a chasglu sbwriel wirio gyda'r awdurdod lleol a oes yna unrhyw gyfyngiadau, fel osgoi priffyrdd cyhoeddus.*

*O dan y gyfraith gyffredin, mae mudiadau gwirfoddol a gwirfoddolwyr unigol yn meddu ar ddyletswydd o ofal i'ch gilydd ac i bawb sydd o bosib yn cael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Mewn rhai achosion, bydd pobl yn medru mynd â chi i'r llys gan hawlio iawndal fel rhan o'r gyfraith gyffredin os ydynt yn cael eu niweidio yn sgil esgeulustod e.e. gwirfoddolwr yn anafu rhywun sy'n cerdded heibio os yw cangen yn disgyn wrth iddynt dorri'r coed.*

## Iechyd a Diogelwch

**Fel llawer o weithgareddau cadwraeth yn yr awyr agored, mae rheoli Jac y Neidiwr yn medru golygu eich bod yn mynd oddi ar y llwybrau arferol gyda risg gynyddol o ddamweiniau. Mae yna gyfrifoldeb, yn sgil dyletswydd gofal sy'n rhan o'r gyfraith gyffredin, i ddeall a chyfathrebu'r agweddau iechyd a diogelwch sydd yn rhan o'ch tasgau. Mae'r Pecyn Cymorth Jac y Neidiwr yn cynnig ffurflenni er mwyn helpu gyda hyn:**


### Ffurflen Asesu Risg

Help gydag adnabod y peryglon a'r risgiau sy'n rhan o'r dasg a'r mesurau i leihau unrhyw risgiau a delio ag argyfyngau. Mae yna esiampl o asesiad risg sydd wedi ei gwblhau a ffurflen wag i chi ei chwblhau.





### Ffurflen Asesu Lles

Help gyda mynd i'r afael ag agweddau o les e.e. ble i olchi dwylo neu mynd i'r toiled yn ystod tasgau. Mae asesiad lles sydd wedi'i gwblhau wedi'i ddarparu ac mae un gwag i chi ei ddefnyddio.




### Er mwyn bod yn ddiogel, rydym yn awgrymu bod un o'r grŵp yn meddu ar gymhwyster Cymorth Cyntaf cyfredol.

Bydd eich Cydlynydd Gwirfoddoli yn yr awdurdod lleol yn medru'ch helpu gyda'r hyfforddiant neu'r costau ar gyfer hyfforddiant. Cysylltwch gyda ni os oes angen mwy o wybodaeth.



### Mae yna Becyn Cymorth defnyddiol hefyd sy'n nodi'r hyn y byddwch chi a'ch grŵp ei angen ar gyfer trefnu digwyddiad llwyddiannus a diogel.



# Gweithredu'n Ddiogel



## Ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

## Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

**Nid oes cyfraith yn datgan bod rhaid i chi brynu yswiriant ar gyfer digwyddiad gwirfoddol neu gymunedol, ond rhaid mabwysiadu arferion da ac efallai eich bod am yswirio'r grŵp rhag ofn bod rhywbeth yn mynd o'i le h.y. rhywun yn hawlio iawndal am anaf a gafwyd tra'n gwirfoddoli gyda chi.**

### Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch yn datgan:

*Weithiau, mae corff arall, fel Cyngor lleol neu rhywun yr ydych yn cysylltu gyda hwy (fel tirfeddiannwr y tir lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal) yn dweud eich bod angen yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.*

*Os felly, gallwch ofyn pam fod angen hyn gan nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Weithiau, bydd arwyddo ymwrthodiad yn ddigonol ac nid oes angen prynu yswiriant. Os ydych yn hurio offer, yna gwiriwch gyda'r cwmni hurio os yw'r telerau yn cynnwys unrhyw yswiriant a darllenwch yr amodau yn fanwl (yn enwedig unrhyw eithriadau).*

*Os oes unrhyw fusnesau allanol yn darparu gwasanaethau, fel bwyd, dylech wirio eu bod yn meddu ar yswiriant a'i fod mewn grym ar ddiwrnod y digwyddiad.*

**Os ydych yn teimlo bod angen Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus, dylech ystyried dau opsiwn:**

### 1) Ymuno gyda grwpiau lleol eraill neu'ch cyngor cymuned/cyngor plwyf

Ceisiwch gadarnhau a oes yna ganolfannau lleol ar gyfer gwirfoddolwyr, cwmnïau buddiannau cymunedol neu elusennau, cadwraeth lleol neu grwpiau glanhau, sydd eisoes wedi trefnu yswiriant ar gyfer gwaith gwirfoddoli. Gofynnwch a oes modd i chi ymuno gyda hwy a bod yn rhan o'u polisi.

Mae rhai cynghorau cymuned/plwyf yn cynnig yswiriant ar gyfer wardeniaid llwybrau troed gwirfoddol lleol ac efallai eu bod yn medru ychwanegu eich grŵp at y polisi os ydych yn helpu cynnal a chadw'r llwybrau., er enghraifft yn tynnu Jac y Neidiwr ar hyd yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Efallai y bydd eich Swyddog Gwirfoddolwyr yn y Cyngor Sir hefyd yn medru eich helpu gyda hyn, a chysylltwch gyda ni am fwy o wybodaeth.

### 2) Trefnu yswiriant ar gyfer eich grŵp

**Dyma ddwy enghraifft o fudiadau yn darparu yswiriant ar gyfer gwaith gwirfoddoli yn yr awyr agored:**

- Gwirfoddolwyr Cadwraeth: Os ydych yn aelod o Rwydwaith Cymunedol TCV (mae'n hawdd ymuno ac mae yna adnoddau cadwraeth gwych ar gael), rydych yn medru elwa o yswiriant gostyngedig gan Zurich. Bydd angen dyfynnu eich rhif aelodaeth TCV tra'n ffonio Zurich er mwyn cael amcanbris. Fel arall, bydd Zurich yn cynnig pecyn yswiriant ar-lein o £96 y flwyddyn ond nid oes gostyngiadau ar gael ar gyfer y pecyn. Mae'n cynnwys atebolrwydd cyhoeddus, damweiniau personol, atebolrwydd ar gyfer cyflogwyr, yswiriant ar gyfer cynnwys ayyb.
- Cadw Cymru'n Daclus: Maent yn cynnig Cynllun Yswiriant Grŵp Cymunedol, sy'n cynnig yswiriant sylfaenol i grwpiau sydd wedi eu ffurfio yn y 12 mis diwethaf. I grwpiau sydd wedi bodoli yn hirach na'r 12 mis diwethaf, maent yn gofyn am gyfraniad o £50/£35 tuag at gost yr yswiriant sylfaenol. Byddant am weld eich grŵp yn casglu sbwriel yn ogystal â'n gwneud tasgau cadwraeth.

### Rydym yn croesawu eich adborth!

Mae diddordeb gennym i glywed am eich profiad o ran materion iechyd a diogelwch ac yswiriant sy'n ymwneud gyda gwirfoddoli, ac felly, cysylltwch gyda os gwelwch yn dda drwy ein tudalen Cysylltwch â ni www.wyevalleyaonb.org.uk

*www.hse.gov.uk/voluntary/volunteers/volunteer-health-and-safety.htm*

*www.gov.uk/government/publications/can-do-guide-for-organisers-of-voluntary-events/the-can-do-guide-to-organising-and-running-voluntary-and-community-events#part-6-do-i-need-insurance*

# Ffurflen Gofrestru Gwirfoddolwyr

## Ar Gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

ENW'R GRŴP GWEITHREDU LLEOL: ..............................................................................................................

## RHAN 1: MANYLION PERSONOL

ENW LLAWN: ........................................................................ TEITL: ........................................................................

CYFEIRIAD: ..............................................................................................................................................

........................................................................................ COD POST: ........................................................................

RHIF FFÔN MUDOL: ........................................................ RHIF FFÔN YN Y DYDD: ........................................................

CYFEIRIAD E-BOST: ..............................................................................................................................................

GALWEDIGAETH: ........................................................ DYDDIAD GENI: ........................................................

Er mwyn helpu ni ystyried unrhyw addasiadau priodol sydd eu hangen ac er mwyn eich cefnogi chi'n well, rhannwch unrhyw fanylion am anableddau neu bryderon iechyd, fel ein bod yn medru trafod hyn gyda chi.

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

## RHAN 2: AMDANOCH CHI

Cefndir a Diddordebau: Nodwch unrhyw fanylion yn gryno. Mae hyn yn medru cynnwys eich sgiliau a phrofiadau, diddordebau ac unrhyw brofiad blaenorol o wirfoddoli.

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

Pam ydych am wirfoddoli gyda'r grŵp hwn, a sut ydych yn gobeithio elwa o hyn?

..............................................................................................................

..............................................................................................................

## RHAN 3: MANYLION CYSWLLT MEWN ARGYFWNG

ENW: ........................................................................ PERTHYNAS Â CHI: ........................................................

CYFEIRIAD: ..............................................................................................................................................

........................................................................................ RHIF CYSWLLT: ........................................................

## RHAN 4: DIOGELU DATA

Mae angen y wybodaeth yr ydych wedi darparu er mwyn prosesu eich diddordeb i wirfoddoli gyda'r grŵp gweithredu lleol yma. Bydd yn cael ei gadw'n ddiogel ar gronfa ddata'r gwirfoddolwyr ac yn unol gyda'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Ticiwch y blychau os ydych yn hapus i'r grŵp gweithredu lleol gysylltu gyda dhi:

☐ Ar e-bost ☐ Ar y ffôn ☐ Yn y post

Rwyf yn datgan fod y wybodaeth yr wyf wedi darparu, hyd y gwn i, yn gywir ac yn gyflawn.

LLOFNOD: ........................................................................ DYDDIAD: ........................................................................

# A ydych am fynd allan i'r awyr agored, gwneud gwahaniaeth i fywyd gwyllt a chwrdd â ffrindiau newydd?

**Mae eich grŵp gweithredu gwirfoddol lleol eich angen i gael gwared ar Jac y Neidiwr sydd yn ein hardal leol hyfryd.**

Mae Jac y Neidiwr yn rhywogaeth estron goresgynnol sydd yn medru mygu ein planhigion cynhenid, meddiannu cynefinoedd sensitif a'n gwthio bywyd gwyllt lleol o'r neilltu.



**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu ni i reoli'r rhywogaeth ddifäol yma. Felly, os oes ambell awr sbâr gyda chi a'ch bod am wneud rhywbeth i helpu'ch ardal leol, cysylltwch gyda ni.**

Mae modd darparu hyfforddiant ar sut i fapio a thynnu Jac y Neidiwr oddi yno.

**Er mwyn cofrestru fel gwirfoddolwr:**

Ffoniwch: .............................................................

Ar: .............................................................

E-bost: .............................................................

Neu dewch o hyd i ni ar Facebook: ...............................

# CYNLLUNIO EICH DIGWYDDIADAU

- FFURFLEN GANIATÂD AR GYFER PERCHNOGION EIDDO/TIR
- RHESTR O'R CIT AR GYFER DIGWYDDIADAU
- TEMPLEDI POSTER AR GYFER Y DIGWYDDIAD
- ASESIAD LLES
- ASESIAD RISG

# Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Perchnogion Tir/Eiddo

## Ar Gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol

### Cytundeb ar gyfer cael Mynediad a Rheoli Jac y Neidiwr

### RHAN 1: MANYLION PERCHENNOG Y TIR/EIDDO

ENW LLAWN: ............................................................................ TEITL: ..............................................................................

CYFEIRIAD: ..................................................................................................................................................................

............................................................................................. COD POST:.......................................................................

RHIF FFÔN MUDOL: .............................................................. RHIF FFÔN YN Y DYDD:...................................................

CYFEIRIAD E-BOST: ........................................................................................................................................................

### RHAN 2: MANYLION AM Y TENANT (OS YN BERTHNASOL)

ENW LLAWN: ............................................................................ TEITL: ..............................................................................

CYFEIRIAD: ..................................................................................................................................................................

............................................................................................. COD POST:.......................................................................

RHIF CYSWLLT::.................................................................... CYFEIRIAD E-BOST: ........................................................

### RHAN 3: SAFLE/MANYLION AM JAC Y NEIDIWR

CYFEIRIAD SAFLE:.........................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................................................

DISGRIFIWCH Y SAFLE OS GWELWCH YN DDA: ..................................................................................................

.................................................................................................................................................................................

**A ydych chi, neu'ch contractwr neu'r gwirfoddolwyr yn y Grŵp Gweithredu Lleol wedi trin neu reoli'r safle o'r blaen?**

☐ Ydym ☐ Nac ydym ☐ Ansicr

Nodwch unrhyw fanylion os gwelwch yn dda (dyddiad/pwy oedd wedi cymryd rhan/triniaeth):............................

.................................................................................................................................................................................

.................................................................................................................................................................................

### RHAN 4: EICH CANIATÂD

**Polisi GDPR** – Byddwn yn cadw eich manylion cyswllt yn unig i'w defnyddio gan y cydlynydd grŵp gweithredu lleol er mwyn cysylltu gyda chi ynglŷn â thrin Rhywogaethau Estron Goresgynnol ar eich tir/eiddo. Oni bai eich bod yn dynodi hyn isod, bydd eich manylion cyswllt yn cael eu dileu unwaith bod y gwaith wedi ei gwblhau. Ni fyddwn yn rhannu eich manylion gydag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd.

**Fel y perchennog y tir/eiddo, rwyf yn cytuno, drwy ddewis 'Ydw', gyda'r canlynol:**

- Caniatáu'r cydlynydd Grŵp Gweithredu Lleol i gadw fy manylion cyswllt yn unol gyda'r polisi GDPR uchod.
- Caniatáu'r gwirfoddolwyr yn y Grŵp Gweithredu Lleol i weithio ar y darn o dir lle y mae Jac y Neidiwr yn tyfu, a hynny ar y dyddiadau a'r amseroedd a gytunir.

LLOFNOD: ................................................................................ DYDDIAD: ..........................................................................

# DIFA JAC Y NEIDIWR

# Y Rhestr Wirio

BE PLANT WISE

Adolygwch eich rhestr offer cyn eich digwyddiad er mwyn sicrhau bod pob dim gennych.
Peidiwch ag anghofio eich offer bioddiogelwch a bisgedi ar gyfer pobl sy'n mynychu!

## Y Rhestr Wirio

### OFFER

- ✓ Cit cymorth cyntaf
- ✓ Menig ar gyfer pawb
- ✓ Clytiau Alcohol/diheintio
- ✓ Lluniaeth
- ✓ Offer bioddiogelwch

### GWAITH PAPUR

- ✓ Copi o'r Asesiad Risg
- ✓ Taflen Gofrestru ar gyfer Gwirfoddolwyr
- ✓ Ffurflen Gofrestru ar gyfer Gwirfoddolwyr
- ✓ Ffurflen Ganiatâd ar gyfer Lluniau
- ✓ Copi o'r Asesiad Lles


Sicrhewch eich bod yn cynnwys offer bioddiogelwch sylfaenol!

